# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER, 09.01.13 AM 7.15 YR HWYR YN FESTRI CAPEL Y WAUN, WAUNFAWR.**

**Presennol –** Cynghorwyr

Bryn Jones (Cadeirydd)
Edgar Owen
Llio Gwyn Jones
Cadi Jones
Terry Parry
Doug Jones
Shoned Griffith (Clerc)

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol, a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**2 Ymddiheuriadau -** Y Cyng EG, Cyng GOW, Cyng SB, Cyng EW

**3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Seddi Gwag**

Nodwyd fod un sedd wag dal ar y Cyngor Cymuned.

**5. Gerddi Bach**

Mynegwyd fod dim ychwanegol i'r hyn a nodwyd yn ein cyfarfod diwethaf, bydd rhaid aros tan ar ol mis Mawrth.

**Toiledau Cyhoeddus**

Mynegwyd ein bod wedi derbyn prisiad o'r safle gan James Properties, yn cadarnhau fod y safle yn werth dim a chymryd i ystyried y gost sydd arno.

Cynnigwyd gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng TP, felly penderfynwyd yn y cyfarfod fod y Cyngor Cymuned yn mynd i gario'n 'mlaen ar pryniant ar y sail fod:-

1. Y safle ynghlwm i Gerddi Bach
2. Potential fel rhan o gynlluniau i'r dyfodol gyda Gerddi Bach.

Y clerc i ysgrifennu at y Cyfreithwyr yn mynegi ein bod yn awddus i gario'n 'mlaen a'r pryniant.

**6. Derbyn Cofnodion 03.12.2012**

Y Cyng. EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng. LlGJ yn eilio.

## 7. Materion yn codi o'r Cofnodion 03.12.2012

Materion Caeathro – Llwybr Llety i Ysbyty – Dal i aros caniatad un tirfeddiannwr i osod y gamfa ar ei dir.

Materion Waunfawr – Llwybr Pant Gwyn i ffordd yr ysgol – wedi derbyn llythyr gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd gwaith yn cael ei wneud i'r llwybr flwyddyn ariannol nesaf.
(y ddau achos uchod i aros yn y cofnodion i'n hatgoffa)

## 8. Adroddiadau

a. **Lloches Bws** - Tony Brown wedi cychwyn glanhau y lloches bws gwaelod ddechrau mis Awst.

b. **Y Fynwent –**Y Cyng BJ a TP i ymweld a'r fynwent. Cyng EO wedi derbyn cwyn bod y mwsog yn broblem ar y llwybrau Cyng LlGJ yn mynd i holi am wybodaeth am gynyrch i drio cael gwaraed o'r mwsog ac adrodd yn ol i'r Cyng BJ.

c.

d. **Llwybrau Cyhoeddus –** Dim i'w adrodd.

## 9. Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| **Dyddiad Cofrestru** | **Bwriad** | **Lleoliad** | **Rhif Cais** | **Statws y Cais** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

### b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd - Dim

## 10. Gohebiaeth

James Properties – prisiad o'r toiledau cyhoeddus yn y pentref
Cyngor Gwynedd – llwybr beicio Gwyrfai
Cyngor Gwynedd – Cyfyngiadau Aros arfaethedig Gwynedd
GISDA – llythyr diolch
Cyngor Gwynedd – Tyrbeini Gwynt
Un Llais Cymru – Cyfarfod pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor
Cyngor Gwynedd – Gorchmynion Rheoli Cwn – cynigion ar gyfer traethau
Cyngor Gwynedd – Materion Cynhaliaeth Ffyrdd yng Nghaeathro a Waunfawr
e-bost – Llywodraeth Cymru – Adran 137 (4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972
e-bost – Cyng SB – datgan diddordeb yn hyfforddiant Un Llais

e-bost – Arwel Ellis Jones, Cyngor Gwynedd – Ffordd osgoi Bontnewyd
e-bost – Clive James – Cae Chwarae Caeathro – wedi bod yn llwyddiannus a chael grant o £17,977 tuag at gost y cynllun o £21,572. Penderfynwyd roi £1,000 o rodd tuag at y cynllun gan y Cyngor Cymuned.
e-bost – Ganolfan Waunfawr – angen gwaith Iechyd a diolgelwch o ran Tan yn y Ganolfan, wedi derbyn dyfynbrisiau ar gyfer gwneud y gwaith. Penderfnwyd roi £1,000 o rodd i'r Ganolfan tuag at y gost o wneud y gwaith.
e-bost Cyngor Gwynedd – Bwsiau Cyhoeddus
e-bost – Heddlu Gogledd Cymru – cynllun 'Bike Register' marcio beiciau
Cyngor Cymuned Llanystumdwy – Polisi Cynnal a Chadw Draeniau/Cwterydd/Ffosydd
e-bost – Cyng EW – Praesept- awgrymu ein bod yn codi'r Praesept i £18,000
Cyngor Gwynedd – Praesept 2013/14 – Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r praesept a cymerwyd i ystryriaeth e-bost gan y Cyng EW. Cynnigwyd £15,000 gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng CJ. Cynnigwyd £16,000 gan y Cyng TP ond ni eilwyd, felly penderfynwyd ein bod yn gofyn am braesept o £15,000 gan Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2013/14.

## 11. Materion Ariannol

### 11.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro | £540.00 |
| Cyflog Clerc Tach a Rhagfyr | £520.00 |
| B Owens | £36.00 |
| T Brown | £60.00 |

### 11.2 Arian a dderbyniwyd

| | |
|---|---|
| Ffi Claddu | £270.00 |

### 11.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| Ganolfan Waunfawr | £1,000 |
| Cae Chwarae Caeathro | £1,000 |
| Cyflog Clerc Ionawr | £260.00 |
| Eglwys y Waun | £10.00 |
| James Properties | £70.00 |

## 14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

18eg Ionawr, 2013 yng Nghanolfan Waunfawr.

## 15 Materion Aelodau.

**Y Cyng DJ** –Dim

**Y Cyng EO** – Dogfennau Ganolfan – edrych yn debygol ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y darn o flaen y Ganolfan. Mynd i ymchwilio ymhellach erbyn y cyfarfod nesaf.
**Y Cyng LLGJ –**Fainc yng nghanol y pentref angen sylw. Hen lon Gaeathro ger Penrhos, angen sylw tyllau drwg yn y ffordd.
**Y Cyng CJ** – Diolch am y cerdyn
**Y Cyng. TP** –Dim
**Y Cyng BJ** - Dim